

Adroddiad Monitro Blynyddol

Cynllun yr Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg

Medi 2023



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Arian a Phensiynau	3
Cynllunio a Darparu Gwasanaethau	6
Polisiâu, deddfwriaeth, gwasanaethau a mentrau	6
Cyflenwi Gwasanaethau	6
Ein swyddogaethau rheoleiddio – a gwasanaethau a wneir ar ein rhan gan drydydd partïon	6
Safonau ansawdd	7
Ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru	7
Gohebiaeth Ysgrifenedig.....	7
Cyfathrebu Dros y Ffôn	7
Cyfathrebu wyneb yn wyneb	8
Cyfarfodydd Cyhoeddus.....	8
Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru	8
Cyfryngau Cymdeithasol	9
Ein hwyneb cyhoeddus	9
Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd, marchnata a hysbysebu	9
Cyhoeddiadau	10
Gwasanaethau a gwybodaeth ddigidol.....	11
Gwefan HelpwrArian (Ein gwefan i Ddefnyddwyr).....	11
Gwefan Gorfforaethol MaPS.....	12
Ffurflenni a deunydd esboniadol	13
Hunaniaeth gorfforaethol	13
Arwyddion yng Nghymru	13
Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff.....	13
Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau	13
Gweithredu'r cynllun	14
Staffio a recriwtio yng Nghymru	14
Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith	14
Gweithio mewn partneriaeth	14
Adroddiad Monitro i Gomisiynydd y Gymraeg – Gorffennaf 2022.....	15
Gwersi a ddysgwyd	16
Casgliad:	16
Atodiad 1.....	17

Cyflwyniad

1. Diben yr adroddiad monitro hwn yw amlinellu'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn ystod y cyfnod 17 Mawrth 2022 i 31 Mawrth 2023 wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg a nodi meysydd i wella.
2. Ym mis Ionawr 2019, crëwyd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau "MaPS" (a oedd yn cael ei alw yn Gorff Canllawiau Ariannol Sengl tan Ebrill 2019). Daeth hyn â'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol, y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau a Pension Wise at ei gilydd. Mae Deddf Canllawiau a Hawliadau Ariannol (2018) yn nodi cyfrifoldebau a chylch gwaith y sefydliad newydd hwn. Ar gyfer agweddau ar les ariannol, gan gynnwys canllawiau Arian a Phensiynau, mae MaPS yn darparu gwasanaethau ledled y DU, gan weithio gyda phob llywodraeth ddatganoledig i sicrhau bod yr hyn a ddarparwn yn ystyried cyd-destun polisi, anghenion a bylchau penodol pob cenedl.
3. Mae canllawiau Arian a Phensiynau yn parhau i gael eu darparu i gwsmeriaid o dan frand HelpwrArian/MoneyHelper, ac yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
4. Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn amlinellu ein hymrwymiad i'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Mae ein Cynllun yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Arian a Phensiynau

5. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod dyletswydd statudol ar bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru i gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg.
6. Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (y Cynllun) yn disgrifio sut y bydd yn rhoi ar waith, i'r graddau y bo'n briodol ac yn rhesymol ymarferol o dan yr amgylchiadau, i'r egwyddor a sefydlwyd gan y Ddeddf y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.
7. Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Arian a Phensiynau gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 17 Mawrth 2022 ac mae'n disodli Cynllun y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau a'r Cynllun Gwasanaethau Cyngori Ariannol a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Dyma'r adroddiad monitro cyntaf gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau.

8. Prif Weithredwr y Gwasanaeth Arian a Phensiynau sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r Cynllun hwn. Cyfrifoldeb ein Rheolwr Cymru yw cyflawni a monitro'r cynllun hwn.

9. Camau Gweithredu Oedd yn Weddill o Lansio'r Cynllun

Gweithred	Swyddog cyfrifol (teitl swydd)	Dyddiad targed
<p>Recriwtio arbenigwyr pensiynau sy'n siarad Cymraeg ar gyfer y llinell gymorth Pensiynau.</p> <p>(Rydym wedi recriwtio pum arbenigwr sy'n siarad Cymraeg, a dechreuodd yn ystod flwyddyn gyntaf y cynllun hwn.</p>	<p>Charlotte Jackson Pennaeth Gweithrediadau Pensiynau a Diogelu Defnyddwyr</p>	Wedi'i gwblhau
<p>Llinell ffôn Gweithrediadau Pensiwn</p> <p>Sicrhau bod y rhif Cymraeg yn cael ei gyhoeddi ar wefan HelpwrArian. Os nad yw'r arbenigwr sy'n siarad Cymraeg ar gael bydd yr alwad yn cael ei ateb drwy neges llais yn Gymraeg yn cynnig galwad yn ôl neu rif i barhau â'r alwad yn Saesneg.</p>	<p>Charlotte Jackson Pennaeth Gweithrediadau Pensiynau a Diogelu Defnyddwyr</p>	Wedi'i gwblhau
<p>Ffurflen Ymholiad Pensiynau Ar-lein</p> <p>Sicrhau bod ffurflen ymholiadau Cymraeg ar gael ac yn cael ei chydnabod gan y CRM (meddalwedd Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid)</p>	<p>Charlotte Jackson Pennaeth Gweithrediadau Pensiynau a Diogelu Defnyddwyr</p>	Wedi'i gwblhau
<p>Gwesgwrs Gweithrediadau Pensiwn</p> <p>Sefydlu gwesgwrs ar gyfer cwsmeriaid pensiwn sy'n siarad Cymraeg</p>	<p>Charlotte Jackson Pennaeth Gweithrediadau Pensiynau a Diogelu Defnyddwyr</p>	Wedi'i gwblhau
<p>Sefydlu a chynnal cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg</p> <p>https://twitter.com/HelpwrArian</p> <p>https://www.facebook.com/HelpwrArian</p>	<p>Charlotte Burns (Lara Crisp) Uwch Olygydd Digidol A Caroline Laws Rheolwr Golygyddol</p>	Wedi'i gwblhau
<p>Recriwtio Siaradwyr Cymraeg Arweiniad Arian ar gyfer galwadau Haen Dau</p>	<p>Charlotte Jackson Pennaeth Arweiniad Arian a</p>	Wedi'i gwblhau

Mae cytundeb ar gyfer arweiniad arian wedi'u hymestyn a bydd MaPS yn gweithio gyda'r cyflenwr i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynllun	Gweithrediadau Pensiynau	
Gwesgwrs Arweiniad Arian Mae cytundeb ar gyfer arweiniad arian wedi'u hymestyn a bydd MaPS yn gweithio gyda'r cyflenwr i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynllun	Charlotte Jackson Pennaeth Arweiniad Arian a Gweithrediadau Pensiynau	Wedi'i gwblhau
WhatsApp Arweiniad Arian Mae cytundeb ar gyfer arweiniad arian wedi'u hymestyn a bydd MaPS yn gweithio gyda'r cyflenwr i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynllun	Charlotte Jackson Pennaeth Arweiniad Arian a Gweithrediadau Pensiynau	Wedi'i gwblhau
HelpwrArian - Gwefan newydd i ddefnyddwyr ar gyfer yr holl wasanaethau etifeddol Bydd cynnwys gwasanaethau etifeddol ar-lein ar gael drwy ddefnyddio'r wefan HelpwrArian newydd. Bydd yr holl gynnwys newydd ar gael yn ddwyieithog. Bydd cynnwys etifeddeol nad yw ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd e.e. blogiau a fideos yn cael eu hychwanegu yn Saesneg yn unig.	Caroline Laws Rheolwr Golygyddol	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau
Y Broses Caffael Sicrhau bod ystyriaethau Cymraeg yn cael eu hymgorffori yn y prosesau caffael	Louise Power Pennaeth Masnachol, Comisiynu a Rheoli Cyfleusterau	Wedi'i gwblhau
Proses Rheoli Prosiectau Diffinio disgwyliadau'r Cynllun Iaith Gymraeg yn y fethodoleg Rheoli Prosiectau, a fydd yn amlinellu'r dull rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau ar draws MaPS a'r broses y dylai pob Rheolwr Prosiect ei ddilyn.	Rachel Vipond Pennaeth Portffolio Newid	Wedi'i gwblhau
Ardal Partneriaeth o wefan B2B y Gwasanaeth Arian a Phensiynau	Chimaechi Allen Uwch Olygydd Digidol (B2B)	Wedi'i gwblhau

Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

Polisiâu, deddfwriaeth, gwasanaethau a mentrau

10. Ym mis Medi 2022, cynhaliodd cydweithwyr cydymffurfiaeth ymarfer monitro i asesu'r prosesau a'r rheolaethau sydd ar waith i fodloni ein gofynion ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg. Pwrpas yr ymarfer monitro oedd nid yn unig i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaeth ond i hwyluso gwelliant parhaus yn ein proses, fel ein bod yn gallu dangos ein bod yn glynu wrth y cynllun a'n hymrwymiad i'n rhanddeiliaid a'n defnyddwyr. Gweler Atodiad 1 ar dudalen 15 am fwy o wybodaeth.
11. Rydym wedi gweithredu proses ffurfiol i sicrhau bod egwyddorion y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu hystyried ar gam cychwyn, sefydlu a gweithredu ein prosiectau. Rydym wedi gwneud hyn drwy ymgorffori gofyniad i ystyried unrhyw effaith ar ein Cynllun yn ein proses rheoli prosiectau safonol.
12. Hefyd, o fewn adran gydymffurfio ein mewnrwyd, mae gennym adran i'r holl staff sy'n egluro ein disgwyliadau ar gyflewni'r Cynllun Iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys proses achos busnes, dogfen gyda chwestiynau cyffredin, Fideo Hyfforddiant, cerdyn sgorio ar gyfer penderfyniadau cyfieithu a phroses gyfieithu.

Cyflenwi Gwasanaethau

Ein swyddogaethau rheoleiddio – a gwasanaethau a wneir ar ein rhan gan drydydd partïon

13. Mae Deddf Canllawiau a Hawliadau Ariannol 2018 (Y Ddeddf) yn nodi gofyniad i'r Corff Canllawiau Ariannol Sengl (a ailenwyd yn MaPS) osod safonau mewn perthynas â phersonau sy'n darparu gwybodaeth, cyngor neu arweiniad yn unol â'r cyrff:
 - Swyddogaeth canllawiau pensiwn
 - Swyddogaeth cyngor ar ddyledion
 - Swyddogaeth arweiniad arian.
14. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi amcanion MaPS, y mae'r safonau hyn yn cyfrannu atynt trwy sicrhau darparu gwasanaeth a chydymffurfiaeth o ansawdd, wedi'u seilio ar systemau a gweithdrefnau da.
15. Mae Safon 1 (i) o [Safonau MaPS](#) yn disgwyl bod gwybodaeth, arweiniad a chyngor a ddarperir yng Nghymru ac a gynigir gan MaPS, neu bartner cyflenwi, hefyd yn cael ei ddarparu'n gyfartal yn y Gymraeg ac yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg MaPS.

Safonau ansawdd

16. Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg a'r Saesneg o ansawdd cyfartal ac y byddant yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen. I'r perwyl hwn, ar gyfer cynnwys ysgrifenedig a deunyddiau, mae Uned Gymraeg yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ein cefnogi gyda'r cyfieithiad ar gyfer y rhan fwyaf o'n cyfieithiadau. Pan fyddwn yn defnyddio ein darparwr allanol, rydym yn defnyddio cyfieithwyr proffesiynol, sy'n aelodau o gymdeithas broffesiynol.

Ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru

17. Rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023, parhaodd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau i ddarparu gwasanaeth aml-sianel cynhwysfawr gyda chyfres o gynnyrch oedd yn cynnwys, y cynnwys, y teclynnau a'r chyfrifianellau ar ein gwefan, llinellau cyfarwyddyd dros y ffôn ac yn Lloegr yn unig, cyngor ar ddyledion wyneb yn wyneb.
18. Mae erthyglau, teclynnau a chyfrifianellau ein gwefan yn cael eu diweddarau'n barhaus ac mae pob un ohonynt yn parhau i fod ar gael yn Gymraeg yn unol â'n Cynllun. Gweler Gwefan HelpwrArian (Ein gwefan i Ddefnyddwyr) ar dudalen 9.

Gohebiaeth Ysgrifenedig

19. Yn ystod y cyfnod adrodd nid oedd gofyniad am ymatebion yn y Gymraeg i ohebiaeth ffurfiol gan aelodau'r cyhoedd, er ein bod wedi ymateb i e-byst monitro gan Gomisiynydd y Gymraeg (gweler tudalen 13). Mae gwasanaethau gohebiaeth yn gyson â'r Cynllun ac mae prosesau priodol ar waith i sicrhau bod ymatebion Cymraeg i ohebiaeth yn cael eu darparu pan fo angen.

Cyfathrebu Dros y Ffôn

20. Nid oes gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau swyddfa yng Nghymru ond am gyfnod yr adroddiad hwn, roedd tri aelod o staff wedi'u lleoli yng Nghymru. Fe wnaeth staff nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ateb galwadau ffôn gyda chyfarch ac enw'r sefydliad yn ddwyieithog. Roedd gennym ddau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg oedd yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnod adrodd hwn.
21. Mae ein arweiniad arian a'n gwasanaethau arweiniad pensiwn ill dau yn cynnig llinell Gymraeg i gwsmeriaid gysylltu â ni yn Gymraeg. Mae ein gwasanaeth Pension Wise yn cynnig cyfle i siarad â siaradwr Cymraeg fel rhan o'r broses IVR, ar ôl cyflwyniad Saesneg.

22. Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, cawsom 112 o alwadau ffôn i'n llinell arweiniad pensiynau Cymraeg. Roedd 180,000 o alwadau o bob rhan o'r DU i'n llinell Saesneg, gyda 2,510 o alwadau y gallwn ddweud eu bod wedi tarddu o Gymru yn seiliedig ar god post. Wrth i ni fonitro galwadau i'n rhif ffôn Saesneg, yn seiliedig ar god post y cwsmer, gall cyfanswm y galwadau ond gael eu ystyried fel amcangyfrif gan efallai na fydd rhai cwsmeriaid yn darparu eu cod post. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn amcangyfrif mae canran fach iawn o'r galwadau o Gymru oedd yn y Gymraeg.
23. Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, cawsom 221 o alwadau ffôn i'n llinell arweiniad arian Cymraeg. Roedd 96,000 o alwadau o bob rhan o'r DU i'n llinell Saesneg, gyda tua 1,600 o alwadau y gallwn ddweud eu bod wedi tarddu o Gymru yn seiliedig ar god post. Wrth i ni fonitro galwadau i'n rhif ffôn Saesneg, yn seiliedig ar god post y cwsmer, gall cyfanswm y galwadau ond gael eu ystyried fel amcangyfrif gan efallai na fydd rhai cwsmeriaid yn darparu eu cod post. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn amcangyfrif mae tua 2% o'r galwadau o Gymru oedd yn y Gymraeg

Cyfathrebu wyneb yn wyneb

24. Ar hyn o bryd rydym ond yn cynnig arweiniad wyneb yn wyneb ar gyfer ein gwasanaeth Pension Wise. Rydym yn sicrhau bod unrhyw berson sy'n dymuno, neu y mae'n ofynnol iddynt, gael cyfweiliad wyneb yn wyneb ar gyfer apwyntiad Pension Wise yn gwybod eu bod yn gallu, a bod pob croeso iddynt, wneud hynny yn Gymraeg.
25. Byddwn yn sicrhau bod aelod cymwys o staff Pension Wise sy'n siarad Cymraeg yn ymdrin â'r sawl sydd a'i dewis iaith yn Gymraeg.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

26. Ni chynhaliodd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd.

Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru

27. Gwnaethom gynnal un arolwg cyhoeddus mawr yn y DU oedd yn cynnwys 465 o gyfweiliadau gyda phlant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yng Nghymru. Roedd y cyfranogwyr yn gallu cwblhau'r arolwg yn Gymraeg.
28. Ni wnaethom gwblhau unrhyw arolygon a ganolbwyntiodd yn benodol ar Gymru. Fe wnaethom gwblhau arolwg ar gyfer ein rhanddeiliaid ledled y DU, ond ni aeth yr arolwg i dros 500 o bobl yng Nghymru felly, ar ôl cwblhau'r cerdyn sgorio penderfyniad i gyfieithu, aeth yr arolwg yn Saesneg yn unig.

29. Drwy ein Rhwydwaith Arweinwyr Arian, rydym wedi trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau tebyg yn benodol ar gyfer ymarferwyr yng Nghymru. Lle bu'n bosib cynnal sesiwn yn Gymraeg rydym wedi gwneud hynny. Yn benodol ar gyfer pynciau cynhwysiant a buddion digidol, drwy ddefnyddio hyfforddwyr Cymraeg. Mae cyflwyniadau a deunydd dilynol ar gyfer pob sesiwn (a gyflwynir yn Gymraeg neu Saesneg) ar gael yn Gymraeg.
30. Rydym yn aml wedi cyflwyno cyflwyniadau i'n partneriaid cyflogwyr a'u staff ar y cymorth a gynigir drwy HelpwrArian/MoneyHelper, o arweiniad arian hyd at arweiniad pensiynau . Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg lle gofynnir amdanynt.

Cyfryngau Cymdeithasol

31. Mae cyfrif uniaith (Cymraeg) <https://twitter.com/HelpwrArian> wedi'i sefydlu, sy'n darparu gwasanaeth Cymraeg pwrpasol ar gyfer anghenion cynulleidfa benodol, sef siaradwyr, cwsmeriaid a chyflogwyr Cymraeg ledled Cymru.
32. Mae tudalen Facebook HelpwrArian <https://www.facebook.com/HelpwrArian> wedi'i sefydlu, sy'n darparu gwasanaeth Cymraeg pwrpasol ar gyfer anghenion siaradwyr Cymraeg.
33. Efallai nad yw'r cynnwys ar ein Facebook a Twitter bob amser yn union yr un fath â chyfrifon Saesneg ond rydym yn sicrhau bod profiad y defnyddiwr a negeseuon gennym yn gyson ac o'r un safon.

Ein hwyneb cyhoeddus

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd, marchnata a hysbysebu

34. Gwnaethom gyhoeddi datganiadau dwyieithog i'r wasg a chyfryngau darlledu yng Nghymru ble roedd y pwnc o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd yng Nghymru. Gwnaethom hefyd osod copïau Cymraeg o unrhyw datganiadau i'r wasg a gyhoeddwyd gennym yn Gymraeg ar wefan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau i gyrraedd cynulleidfa ehangach o siaradwyr Cymraeg.
35. Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, roedd gennym un siaradwr Cymraeg wedi'u hyfforddi i ddelio â'r cyfryngau a oedd yn gallu darparu cyfweiliadau i'r cyfryngau darlledu yn y Gymraeg.

36. Yn y cyfnod adrodd hwn, gwnaethom dalu i redeg dwy ymgyrch farchnata defnyddwyr ar gyfer MaPS. Yr ymgyrch Pension Wise, sy'n hyrwyddo ein sesiynau canllawiau pensiynau i bobl â phensiwn cyfraniadau wedi'i diffinio, a'r ymgyrch Costau Byw a dargedodd bobl a allai elwa o'n cymorth ar-lein, oedd yn helpu pobl yr effeithiwyd arnynt gan y costau byw cynyddol.
37. Yn ein hymgyrch Costau Byw, gwnaethom sicrhau bod posteri oedd yn cael eu harddangos yng Nghymru, bob amser gyda fersiwn Cymraeg a Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd, neu yn agos iawn i'w gilydd. Ar gyfryngau cymdeithasol gwnaethom gyflwyno fersiynau Cymraeg o'n hysbysebion drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol Cymraeg.
38. Ar gyfer Pension Wise gwnaethom hefyd ddarparu ein hysbysebion yn Gymraeg ar Facebook ac Instagram.
39. Pan yn staffio stondinau arddangos ac arddangosfeydd yng Nghymru, gwnaethom sicrhau bod aelod o staff oedd yn siarad Cymraeg ar gael i'w mynychu, a bod deunydd Cymraeg ar gael, yn ôl yr angen.

Cyhoeddiadau

40. Gwnaethom gynhyrchu copïau ar wahân o'n llyfrynnau yn Gymraeg i sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddarparu deunyddiau wedi'u hargraffu i'r cyhoedd yng Nghymru.
41. Ar ein gwefan archebu, dangosir bod cyhoeddiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn galluogi dewisiadau priodol i unigolion a sefydliadau.
42. Roedd ein harweiniad printiedig cyfredol i gyd ar gael i'w harchebu neu eu hargraffu yn Gymraeg o'n tudalen Gymraeg neu o'r dudalen Saesneg hefyd <https://www.moneyhelper.org.uk/en/contact-us/free-printed-guides> .
43. Nid yw ein Cynllun yn cwmpasu dogfennau technegol, contractau, canllawiau technegol, gwahoddiadau i dendro a chyhoeddiadau tebyg (er enghraifft, ymatebion i ymgynghoriad) lle mae cylchrediad wedi'i gyfyngu i'r gymuned dechnegol e.e. sefydliadau defnyddwyr, sefydliadau ariannol a darparwyr cyngor, a'u cyrff cynrychioliadol.

Gwasanaethau a gwybodaeth ddigidol

Gwefan HelpwrArian (Ein gwefan i Ddefnyddwyr)

44. Mae ein gwefan yn cynnwys botwm 'Cymraeg' ar frig pob tudalen we. Bydd hyn yn mynd â'r defnyddiwr i'n cynnwys Cymraeg. Mae'r cynnwys hwnnw'n adlewyrchu'r Saesneg yn uniongyrchol ar yr holl gynnwys gwe a gwmpesir gan ein Cynllun Iaith Gymraeg.
45. Er mwyn gwella profiad ein defnyddwyr ar ddyfeisiau symudol, gwnaethom ddatblygu dyluniad gwe ymatebol sy'n helpu i ddarparu'r profiad gwyllo gorau posibl i ddefnyddwyr waeth beth yw eu dyfais.
46. Ein nod yw sicrhau bod yr holl erthyglau statig ar ein gwefan yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a'u bod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
47. Roedd teclynnau a chyfrifiannellau sy'n cael eu cynhyrchu gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. O bryd i'w gilydd, nid oedd safleoedd cymharu yr oeddem yn cysylltu â hwy, ond na chawsant eu cynhyrchu gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, ar gael yn Gymraeg.
48. Yn gyffredinol, nid oedd fideos a gynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau oedd ar gael ar ein gwefannau cyn i Helpwr Arian gael ei lansio a chyn mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg MaPS, ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn cael ei ystyried fel cynnwys etifeddol a bydd yn aros fel ag y mae. Mae fideos a grëwyd ar gyfer gwefan HelpwrArian ers hynny (Awst 2022) ar gael yn Gymraeg.
49. Mewn ymateb i eitemau o newyddion a materion yn ystod pob diwrnod gwaith, gwnaethom gynhyrchu erthyglau 'newyddion' a blog ar ein gwefan. Ein nod yw cael y Gymraeg a'r Saesneg wedi eu llwytho ar yr un pryd, er bod yn rhaid i'r Gymraeg gael ei anfon yn allanol i'w gyfieithu ac felly weithiau caiff ei ohirio.
50. Roedd unrhyw luniau gwybodaeth sy'n cael ei ddefnyddio fel cynnwys ar gyfer ymgyrch neu erthygl sydd wedi'i hanelu at y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg.
51. Fel cyfanswm, cyn belled ag y gallwn fonitro, rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 bu bron i **22 miliwn** o ymweliadau â'n gwefan o bob rhan o'r DU a daeth dros **255k** ohonynt o Gymru.
52. Roedd y nifer yr ymweliadau i dudalen unigryw Cymraeg yn **33,465**.

Gwefan Gorfforaethol MaPS

53. Mae gwefan busnes-i-fusnes (B2B) hefyd, (gwefan nad yw ar gyfer defnyddwyr) wedi'i hanelu at ein rhanddeiliaid ledled y DU. <https://moneyandpensionservice.org.uk/>
54. Rydym wedi penderfynu cyfieithu tudalennau sydd wedi'u hanelu'n benodol at ein partneriaid a'n rhanddeiliaid sy'n ymgysylltu â ni, megis cynnwys o dan y blwch 'Gweithio gyda ni'. Hefyd, unrhyw gynnwys sydd wedi'i anelu'n benodol at randdeiliaid yng Nghymru, fel datganiadau i'r wasg penodol i Gymru, ymchwil penodol i Gymru neu waith ar ein Strategaeth Lles Ariannol.
55. Nid yw rhywfaint o gynnwys wedi'i anelu at Gymru fel ein gwaith dyled a'n cynnwys sydd wedi'i anelu'n benodol at y dair gwlad arall o'r DU.
56. Fel rheol gyffredinol, mae cynnwys nad yw wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer y cyhoedd yn cael ei gyhoeddi yn Saesneg yn unig ar wefan MaPS fel y nodir yn atodiad ein cynllun. Yn y categori hwn mae:
 - papurau ac adroddiadau ymchwil;
 - cynlluniau a strategaethau corfforaethol; (er bod Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol wedi'i chyfieithu <https://maps.org.uk/cy/strategaeth-y-du-ar-gyfer-llesiant-ariannol-2/>)
 - codau ymarfer; (er bod Safonau MaPS ar gael yn Gymraeg <https://www.moneyandpensionservice.org.uk/cy/safonau-gwasanaeth-arian-a-phensiynau/>)
 - dogfennau arweiniad ar gyfer ymgynghorwyr a gweithwyr proffesiynol; (mae rhywfaint o arweiniad ar gael yn Gymraeg - Y Fframwaith Cymhwysedd Arweiniad Ariannol [Lawrlwytho'r fframwaith \(yn Gymraeg\)](#))
 - cylchlythyrau rhanddeiliaid (a blogiau)
 - tendrau, cyngor a chyfarwyddiadau i gontractwyr a thrydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau ar ran MaPS.
57. Er, os yw'n briodol, byddwn yn cyfieithu rhywfaint o'r rhain os ydym yn eu rhannu gyda chynulleidfa yng Nghymru, fel y dengys enghreifftiau uchod.

Ffurflenni a deunydd esboniadol

58. Mae ffurflenni archebu ar-lein Cymraeg ar gael.

Hunaniaeth gorfforaethol

59. Mae gennym fersiwn Gymraeg o'n logo. Roedd yr holl staff a ddynodwyd i ddelio â gwaith rheolaidd i bobl yng Nghymru yn defnyddio asedau dwyieithog wrth ddelio â phobl yng Nghymru.

Arwyddion yng Nghymru

60. Nid ydym wedi gosod unrhyw arwyddion parhaol neu dros dro sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

61. Ni wnaethom gyhoeddi unrhyw hysbysiadau cyhoeddus nac unrhyw hysbysiadau swyddogol.
62. Gwnaethom recriwtio ar gyfer ein harbenigwyr pensiynau yng Nghymru drwy gyhoeddi hysbyseb swyddi dwyieithog ar wefannau recriwtio. Gwnaethom ddefnyddio asiant recriwtio a hefyd recriwtiwr Cymraeg penodol a gwefan y gwasanaeth sifil ar gyfer swyddi Cymraeg.

Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau

63. Roedd datganiadau i'r wasg oedd yn berthnasol i gynulleidfa yng Nghymru ar gael yn Gymraeg.
64. Gwnaethom gymryd rhan mewn cyfweiliadau gyda'r cyfryngau darlledu Cymraeg lle bo hynny'n bosibl.

Gweithredu'r cynllun

Staffio a recriwtio yng Nghymru

65. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon i aelodau'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg ac wedi ymdrechu i recriwtio a chadw niferoedd digonol o staff sy'n gymwys yn y Gymraeg er mwyn gwneud hyn.
66. Ar gyfer ein harbenigwyr pensiwn, ystyriwyd bod rhuglder yn y Gymraeg yn hanfodol ac fe'i nodwyd yn y cymwyseddau swyddi a hysbysebion. Roeddem wedi targedu siaradwyr Gymraeg pan oedd hi'n anodd llenwi swyddi generig lle roedd y Gymraeg yn hanfodol.

Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith

67. Mae Dysgu Cymraeg yn y Gwaith ar-lein ar gael drwy DWP, ein corff noddi. Bydd staff sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, nad ydynt yn siarad Cymraeg, yn cael eu hannog i gwblhau'r dysgu.
68. Rydym wedi creu fideo ar ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer holl staff MaPS fel rhan o'u cyfnod sefydlu ac fel rhan o'n hyfforddiant cydymffurfio.

Gweithio mewn partneriaeth

69. Gwnaethom sicrhau ein bod yn cynnig ein darpariaeth Gymraeg i unrhyw sefydliad sydd â neu heb Gynllun Iaith Gymraeg a oedd yn dymuno ymgorffori ein hadnoddau i'w gwefan eu hunain. Fe wnaethom ddarparu opsiwn ar gyfer y codau ymgorffori ar gyfer cynnwys 'sydd ar gael i syndicet' ar gyfer ein cynnwys Cymraeg a Saesneg.
70. Rydym yn gweithio gydag InBest, darparwr FinTech i gyfieithu eu teclyn budd-daliadau ar ein gwefan. Rhannwyd y cyfieithiad gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr gwasanaethau ariannol a chyngor eraill ledled Cymru, fel eu bod yn gallu darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg hefyd.
71. Gyda'n partneriaid ledled Cymru, rydym wedi cyflwyno podlediadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Er enghraifft, ein podlediad ar Lles Ariannol yn y Gweithle gyda Cymru Iach ar Waith. <https://phw.nhs.wales/services-and-teams/healthy-working-wales/podcasts/>
72. Mae ein gwaith gyda chyflogwyr ledled Cymru i wreiddio lles ariannol i staff wedi cynnwys cyflwyniad ar ein cymorth HelpwrArian/MoneyHelper a'n cymorth pensiynau. Mae'r rhain wedi'u cyflwyno yn Gymraeg lle gofynnwyd amdanynt.

73. Mae cynnwys i hyrwyddo ein lles ariannol yn y gweithle hefyd ar gael yn Gymraeg i'n partneriaid. Er enghraifft esboniad fideo byr <https://youtu.be/Mxr9fvwPQAk> a hefyd canllaw pdf [Lles Ariannol yn y Gweithle Y Canllaw Hanfodol i Gyflogwyr](#).

Adroddiad Monitro i Gomisiynydd y Gymraeg – Gorffennaf 2022

74. Yn dilyn ymarfer monitro gan Gomisiynydd y Gymraeg, nodwyd y canlynol:
- **Gohebiaeth** – anfonwyd 3 e-bost Cymraeg a 3 e-bost Saesneg at contact@maps.org.uk yn ystod mis Mai a mis Mehefin. Atebwyd 2/3 o e-byst Cymraeg yn Gymraeg a chydymffurfwyd â'r Cynllun Iaith. Ni chafodd 1 e-bost Cymraeg ateb (anfonwyd 27/06/22, yn gofyn am gopi o bolisi cydraddoldeb MAPS). Atebwyd 1/3 o'r e-byst Saesneg.
 - **Hunaniaeth gorfforaethol** – roedd 2/3 o'r enghreifftiau a samplwyd yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith. Roedd gan un o'r enghreifftiau logo uniaith Saesneg ar waelod tudalen y wefan Gymraeg (<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement>). (Nawr wedi'i ddatrys)
 - **Recriwtio** – Doedd dim swyddi yn cael eu hysbysebu ar amser y monitro, felly does dim canlyniadau.
 - **Gweithdrefn gwyno** – Dim ond yn Saesneg y mae'r [polisi cwynion](#) sy'n gysylltiedig ag ymrwymadau yn y Cynllun Iaith ar gael.
 - **Gwefannau** – cafodd 15 o dudalennau ar hap eu dewis o wefannau MAPS a HelpwrArian. Dim ond 1 tudalen (<https://www.maps.org.uk/pensions-dashboards/>) nad oedd ar gael yn Gymraeg; roedd y gweddill ar gael yn y ddwy iaith ac yn gweithio'n llawn yn Gymraeg.
 - **Cyfyngau cymdeithasol** – cafodd 10 hysbysiad yr un o'n cyfrifon Twitter a Facebook eu samplu ac roedd pob un ohonynt ar gael yn Gymraeg ar yr un pryd â'r neges Saesneg gyfatebol.
 - **Gwasanaeth ffôn** – ymdriniwyd â 3/3 o'r galwadau yn eu cyfanrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau awtomataidd a rhyngweithio â pherson sy'n delio â galwadau.
 - **Fideos cyhoeddusrwydd** – roedd 3/3 o'r fideos a samplwyd ar gael yn Gymraeg.
 - **Dogfennau** – roedd 3/3 o ddogfennau y gellir eu lawrlwytho ar gael yn Gymraeg.
 - **Ffurflenni** – roedd 3/3 o'r ffurflenni a samplwyd ar gael yn Gymraeg.

Gwersi a ddysgwyd

75. Ym mis Mehefin 2022 anfonodd MaPS arolwg canfyddiadau rhanddeiliaid y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) a'r Rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau (PDP). Cafodd yr arolwg ei sgorio yn unol â'n cerdyn sgorio cyfieithu i benderfynu a ddylid anfon yr arolwg yn Gymraeg neu Saesneg. Ni aeth yr arolwg i dros 500 o bobl yng Nghymru, a teimlwyd bod rhoi cyhoeddusrwydd iddo yn Saesneg yn unig, yn cydymffurfio â'r cynllun. Er mwyn cael gwared ar unrhyw amwysedd cafodd yr arolwg ei sgorio hefyd gan ddefnyddio'r system amlinellir yn Atodiad B Cynllun Iaith Gymraeg MaPS a sgoriodd 7. Y penderfyniad a nodir ar gyfer sgôr o 7 ac is yw: Cyhoeddir y dogfennau hyn fel arfer yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, anfonwyd yr e-bost cysylltiedig hefyd yn Saesneg yn unig a dylai'r e-bost hwn fod wedi bod yn ddwyieithog.
76. Mynychodd ein swyddog sy'n gyfrifol am y Cynllun Iaith Gymraeg gyfarfod tîm cyfathrebu a thrafod y mater, beth y dylem fod wedi'i wneud yn wahanol, a'r hyn y mae angen i ni ei wneud wrth symud ymlaen.

Casgliad:

77. I grynhoi, rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gallu cyrchu ein gwasanaeth trwy ein darpariaeth aml-sianel trwy ddewis y Gymraeg neu Saesneg. Mae ein cynnwys ar-lein yn cynnwys dros 750 o erthyglau, tua 20 o declynnau a chyfrifianellau a llawer o ymgyrchoedd a diweddariadau, y rhan fwyaf wedi'u cyflwyno yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.
78. Rydym wedi rhoi prosesau mewn lle i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg, ac rydym yn ymdrechu i edrych ar welliant parhaus ac unrhyw wersi a ddysgwyd pan nad ydym wedi bodloni ein safonau uchel ein hunain.
79. Rydym yn parhau i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg, ond mae'r defnydd yn parhau i fod yn isel, a byddem yn croesawu cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ein gwasanaethau gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Atodiad 1

Mae MaPS yn gweithredu ar fodel tair llinell o amddiffyniad. Y llinell amddiffyn gyntaf (1LoD) sy'n gyfrifol am sicrhau ei bod yn gweithredu o fewn deddfwriaeth a gofynion rheoleiddio.

Bydd yr ail linell amddiffyn (2LoD) yn canolbwyntio ar hwyluso, asesu, monitro ac adrodd ar ddigonolrwydd cydymffurfio. Bydd hefyd yn goruchwyllo gweithgareddau llinell 1af ac yn asesu risg cydymffurfiaeth.

Bydd y drydedd linell amddiffyn (3LoD) yn adolygu gweithgareddau 1LoD a 2LoD i nodi bylchau a rhoi sicrwydd annibynnol parhaus ar effeithiolrwydd gweithredol.

Ym mis Medi 2022, cynhaliodd y swyddogaeth gydymffurfio, fel rhan o'u gweithgaredd ail linell, ymarfer monitro i asesu'r prosesau a'r rheolaethau sydd ar waith i fodloni ein gofynion ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg. Pwrpas yr ymarfer monitro oedd nid yn unig i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaeth ond i hwyluso gwelliant parhaus yn ein proses, fel ein bod yn gallu dangos ein bod yn glynu wrth y cynllun a'n hymrwymiad i'n rhanddeiliaid a'n defnyddwyr.

Mae'r tabl gweithgaredd canlynol yn dangos yr argymhellion y cytunwyd arnynt yn dilyn yr adolygiad o'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Gweithgaredd Monitro Cydymffurfiaeth:



Maes Gweithgaredd	Argymhellion	
Proses Ysgrifenedig	Darparu dogfen ysgrifenedig a llif gwaith y gellir eu rhannu ar draws MaPS sy'n manylu ar sut y dylid gwneud ceisiadau am gyfieithu cynnwys i'r Gymraeg. Dylai hyn gynnwys gwaith busnes arferol a newid cynnwys ar gyfer fformatau digidol ac argraffedig.	Wedi'i gwblhau
	Cynhyrchu rhestr wirio sy'n mynd i'r afael â chwestiynau cyffredin, yn seiliedig ar y cerdyn sgorio cyfieithu y Cynllun Iaith Gymraeg, sy'n crynhoi'r ystyriaethau ynghylch a oes angen cyfieithu cynnwys i'r Gymraeg.	Wedi'i gwblhau
Gweithgaredd Newid - Achosion Busnes - Ystyried y Cynllun Iaith Gymraeg	Swyddogaeth Llywodraethu i sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i ystyried o fewn yr achos busnes gan gynnwys wrth gychwyn y Newid neu yn ystod y broses o ddarparu Newid	Wedi'i gwblhau
	Sicrhau bod rhestr wirio a cherdyn sgorio y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei uwchlwytho fel rhan o'r canllawiau achos busnes fel y gellir ei ddefnyddio fel dogfen 'hunan-wasanaeth' ar gyfer perchnogion achosion busnes i sicrhau bod gwerthusiad wedi'i gynnal i benderfynu a oes angen cyfieithu'r cynnwys dan sylw i'r Gymraeg.	Wedi'i gwblhau

Maes Gweithgaredd	Argymhellion	
	Datblygu traciwr ar gyfer prosiectau a rhaglenni â blaenoriaeth gyda cherrig milltir/camau pyrth allweddol lle gall y prosiect/rhaglen roi sicrwydd bod y Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i ystyried a bod camau perthnasol wedi'u cymryd.	Wedi'i gwblhau fel rhan o'r broses achos busnes
Nodi bylchau mewn hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg	Cyflwyno sesiwn gyflwyno ar swyddogaeth y Cynllun Iaith Gymraeg i'r swyddogaeth Newid gan fod nifer o Reolwyr Prosiect sydd newydd eu recriwtio sydd ag ond ychydig neu ddim ymwybyddiaeth o'r cynllun. Mae hyn yn dal heb ei gwblhau.	Heb ei gwblhau
	Tudalen fewnrwyd cydymffurfiaeth i gynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg ac unrhyw ddeunyddiau hyfforddi ar ôl eu datblygu .	Wedi'i gwblhau
	Cynhyrchu blog fideo y gellir ei ddefnyddio fel rhan o'r rhaglen sefydlu gorfforaethol yn ogystal â chydweithwyr etifeddol sy'n newydd i'r Cynllun Iaith Gymraeg	Wedi'i gwblhau
	Defnyddio Grŵp Gweithredu y Cynllun Iaith Gymraeg i nodi bylchau mewn hyfforddiant a swyddogaethau a fyddai'n elwa o gyflwyniad i'r Cynllun	Wedi'i gwblhau
Gwasanaethau Cyfieithu i'r Gymraeg	Darganfod lefel y gallu (gan gynnwys fformatau dogfennau a chynnwys sain) a gallu cyfieithwyr ar gyfer y galw parhaus ac yn y dyfodol .	Wedi'i gwblhau
	Caffael cyflenwr gwasanaeth cyfieithu newydd a fydd yn gallu cwmpasu'r gofynion cyfieithu gan gynnwys y Gymraeg .	Wedi'i gwblhau
	Cyfarfod gwiro bob dri mis gyda chyfieithwyr i asesu capasiti.	Parhaus
Materion Corfforaethol	Penodi un o'r tîm Materion Corfforaethol yn Hyrwyddwr ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg	Wedi'i gwblhau
	Cynhyrchu proses ysgrifenedig o'r dechrau i'r diwedd .	Wedi'i gwblhau
	Bwydo i mewn i'r cwmpas ar gyfer y cyflenwr cyfieithu newydd fel rhan o'r ITT .	Wedi'i gwblhau
Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau	Datblygu prosesau ysgrifenedig a llif gwaith fel y gellir cyflawni Safon Gwasanaeth 5 o'r asesiad GDS: Darparu gwasanaeth y gall pawb ei ddefnyddio, gan gynnwys pobl anabl a phobl â nodweddion eraill a ddiogelir yn gyfreithiol a phobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd neu heb y sgiliau na'r hyder i'w ddefnyddio. Bydd angen i hyn fod mewn lle ar gyfer y cyfnod Beta preifat. Mae hyn yn dal i fod heb ei gwblhau	Heb ei gwblhau: Mae'r rhaglen ar hyn o bryd mewn cyfnod o ailgynllunio a bydd yn codi'r elfen Gymraeg ar yr amser priodol
	Ymchwilio i'r opsiwn o gyfieithydd mewnol ar gyfer gwybodaeth ieithyddol mwy arbenigol.	Wedi'i gwblhau

Maes Gweithgaredd	Argymhellion	
	PDP i gaffael gwasanaeth cyfieithu Cymraeg i gyfieithu cynnwys fel gwasanaeth wrth gefn i'r cyfieithwyr presennol oherwydd y niferoedd mawr o gynnwys.	Heb ei gwblhau
Rheoli Prosiect/Rhaglen	Trafod proses ymarferol ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg y gellir ei ymgorffori i gynlluniau cyflawni prosiect/rhaglen .	Wedi'i gwblhau
	Rheolwyr Prosiect i nodi unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg ac i sicrhau eu bod yn cael eu nodi yn y cam achos busnes .	Parhaus

Tudalennau Cydymffurfiaeth ar fewnwyd MaPS

Welsh Language Scheme



I gael rhagor o wybodaeth am Gynllun Iaith
Gymraeg MaPS cysylltwch â:

Lee Phillips, Rheolwr Cymru
Lee.Phillips@MaPS.org.uk